OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 848

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015

## RHAN 3

### Addasu darpariaethau ymadawr cynnar a darpariaethau eraill

**Diogelu cynyddiadau mewn lleiafsymiau pensiwn gwarantedig**

**9.**—(1) Mae Pennod 3 o Ran 4 o Ddeddf 1993 (diogelwch ar gyfer ymadawyr cynnar: diogelu cynyddiadau mewn lleiafsymiau pensiwn gwarantedig ("gwrth-ffrancio")) wedi ei haddasu fel a ganlyn.

(2) Wrth gymhwyso'r Bennod honno i P fel aelod o'r hen gynllun—

(a) yn adran 87(1)(a)(i)(**1**) (egwyddor diogelwch cyffredinol), mae'r cyfeiriad at y dyddiad pan fo P yn peidio â bod mewn cyflogaeth sydd wedi ei chontractio allan drwy gyfeirio at gynllun i'w ystyried yn gyfeiriad at y dyddiad pan fo P yn peidio â bod mewn cyflogaeth sydd wedi ei chontractio allan drwy gyfeirio at y cynllun newydd; a

(b) mae cyfeiriadau dilynol at "the cessation date" i'w dehongli yn unol â hynny.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan adran 15(3)(a) o Ddeddf Pensiynau 2007 (p. 22) a pharagraffau 1 ac 28 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno, a chan O.S. 2005/2050. Fe'i diwygiwyd yn rhagolygol gan adran 24 o Ddeddf Pensiynau 2014 (p. 19), a pharagraff 38 o Atodlen 13 i'r Ddeddf honno.